O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 43

Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Trefniadau Osgoi Artiffisial) (Rhestrau Lleol) (Cymru) 2026

Gwnaed *11 Chwefror 2026*

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2) a (3)

W E L S H S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S

2026 No. 43

The Non-Domestic Rating (Artificial Avoidance Arrangements) (Local Lists) (Wales) Regulations 2026

Made *11 February 2026*

Coming into force in accordance with regulation 1(2) and (3)

£8.90

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 43

ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Trefniadau Osgoi Artiffisial) (Rhestrau Lleol) (Cymru) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae adrannau 63F i 63M o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("y Ddeddf"), a fewnosodwyd gan adran 13 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024, yn gwneud darpariaeth ynghylch gwrthweithio manteision sy'n deillio o drefniadau artiffisial i osgoi atebolrwydd ardrethi annomestig mewn perthynas â hereditamentau yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn disgrifio'r mathau o drefniadau osgoi, mewn perthynas â hereditamentau ar y rhestrau ardrethu annomestig lleol, sy'n artiffisial at ddibenion adrannau 63F i 63I a 63K i 63M o'r Ddeddf (oni bai bod awdurdod bilio yn penderfynu fel arall). Maent hefyd yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â chosbau a diwygiadau canlyniadol i is-ddeddfwriaeth.

Disgrifir y mathau o drefniadau sy'n artiffisial yn rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn, ac yn yr Atodlen iddynt. Y rhain yw: trefniadau pan na fo hereditament wedi ei feddiannu ar sail fasnachol, pan fo'r talwr ardrethi wedi ei ddirwyn i ben yn wirfoddol, pan fo'r perchennog neu'r meddiannydd yn dangos nodweddion ac ymddygiadau penodol, neu pan fo nodweddion penodol i feddiannaeth yr hereditament. Fodd bynnag, mae rheoliad 3(2) yn galluogi awdurdod bilio i benderfynu nad yw trefniant o fath a bennir yn yr Atodlen yn artiffisial ar ôl rhoi sylw i'r holl amgylchiadau. Caiff amgylchiadau o'r fath gynnwys (ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt) y rheini a restrir yn rheoliad 3(3).

Mae rheoliad 4 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r gosb a osodir pan fo person wedi methu â thalu swm sy'n ddyledus i awdurdod bilio am ei fod wedi gwneud trefniant artiffisial a'r wybodaeth y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiadau sy'n gosod cosbau o'r fath ("hysbysiadau cosb").

Mae rheoliad 5 yn gwneud darpariaeth o ran sut y caiff awdurdod bilio beri bod hysbysiadau a roddir o dan adran 63K(1) o'r Ddeddf ("hysbysiadau adran 63K") a hysbysiadau cosb yn cael eu cyflwyno.

Mae rheoliad 6 yn diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestrau Lleol) 1989 (“Rheoliadau 1989”), sy’n llywodraethu bilio, casglu ac adennill ardrethi annomestig nas talwyd. Mae’r diwygiadau hyn yn sicrhau y bydd Rheoliadau 1989 yn gymwys i swm sy’n daladwy gan dalwr ardrethi o ganlyniad i’r ffaith bod yr awdurdod bilio yn cymhwyso adrannau 63F i 63I a 63K i 63L o’r Ddeddf a’r Rheoliadau hyn. Mae’r diwygiadau hefyd yn darparu, pan fo hysbysiad adran 63K wedi ei gyflwyno i’r talwr ardrethi hwnnw, na chyflwynir hysbysiad galw am dalu mewn cysylltiad â’r swm sy’n daladwy tan ar ôl i’r terfynau amser ar gyfer adolygu’r hysbysiad adran 63K ac apelio yn ei erbyn ddod i ben.

Mae rheoliad 7 yn diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestrau ac Apelau) (Cymru) 2023 i sicrhau bod darpariaethau perthnasol yn y Rheoliadau hynny’n gymwys mewn perthynas ag apelau a ddygir yn erbyn hysbysiadau adran 63K.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Polisi a Diwygio Ardrethi Annomestig, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

2026 Rhif 43

ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Trefniadau Osgoi Artiffisial) (Rhestrau Lleol) (Cymru) 2026

Gwnaed *11 Chwefror 2026*

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2) a (3)

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan baragraffau 1 ac 11(1A) o Atodlen 11 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), ac wrth arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 63H(1)(a) a (3)(a), 63M(1) a (5), a 143A(3) o'r Ddeddf honno(**3**), ac adran 22(1)(a) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024(**4**).

Yn unol â gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd a gymhwysir gan adran 143A(5)(e) ac (f) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**5**) gosodwyd drafft o'r offeryn statudol Cymreig hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

RHAN 1

Cyflwyniad

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Trefniadau Osgoi Artiffisial) (Rhestrau Lleol) (Cymru) 2026.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2026.

(**1**) 1988 p. 41. Diwygiwyd paragraff 1 gan baragraff 4 o Atodlen 15 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 (p. 28). Mewnosodwyd a diwygiwyd paragraff 11(1A) gan baragraffau 13(3)(b) a 18(2)(b) o'r Atodlen i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024 (dsc 6), yn y drefn honno.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Mae'r swyddogaethau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) Mewnosodwyd adrannau 63F i 63M gan adran 13 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024 ("Deddf 2024"). Mewnosodwyd adran 143A gan adran 14 o Ddeddf 2024.

(**4**) 2024 dsc 6.

(**5**) Mewnosodwyd adran 143A gan adran 14 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024. Gweler hefyd adran 37G o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4) am ddarpariaeth ynghylch y weithdrefn sy'n gymwys i'r offeryn hwn.

(3) Daw rheoliad 7(3) i rym yn union ar ôl i reoliad 11(4) o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Darparu Gwybodaeth am Newidiadau mewn Amgylchiadau) (Cymru) 2026(**6**) ddod i rym.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "awdurdod bilio" ("*billing authority*") yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

mae i "cwmni" yr ystyr a roddir i "company" yn adran 1(1) o Ddeddf Cwmnïau 2006(**7**);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988;

mae i "hereditament" yr ystyr a roddir i "hereditament" gan adran 64 o'r Ddeddf(**8**);

ystyr "hysbysiad adran 63K" ("*section 63K notice*") yw hysbysiad a roddir gan awdurdod bilio o dan adran 63K(1) o'r Ddeddf;

mae i "meddiannydd" yr ystyr a roddir i "occupier" yn adran 65 o'r Ddeddf(**9**);

mae i "perchennog" yr ystyr a roddir i "owner" yn adran 65 o'r Ddeddf;

ystyr "rhestr leol" ("*local list*") yw rhestr a lunnir ac a gedwir yn unol ag adran 41ZA o'r Ddeddf(**10**);

ystyr "talwr ardrethi" ("*ratepayer*"), fel y mae'n gymwys i hereditament, yw'r meddiannydd neu, os nad yw'r hereditament wedi ei feddiannu, y perchennog;

mae "trefniant" ("*arrangement*") yn cynnwys (ymhlith pethau eraill) unrhyw weithred, unrhyw ddigwyddiad, unrhyw gytundeb, unrhyw weithrediad, unrhyw addewid, unrhyw gynllun, unrhyw drafodiad, unrhyw ddealltwriaeth neu unrhyw ymgymeriad (pa un a ellir ei gorfodi neu ei orfodi'n gyfreithiol ai peidio), ac mae cyfeiriadau at drefniant i'w darllen fel petaent yn cynnwys—

(a) cyfres o drefniadau, a

(b) unrhyw ran o drefniant neu unrhyw gam o drefniant sy'n cynnwys mwy nag un rhan neu gam;

ystyr "unigolyn â rheolaeth sylweddol" ("*individual with significant control*") yw unigolyn y mae ei fanylion wedi eu cynnwys yng nghofrestr y cwmni o bobl â rheolaeth sylweddol yn unol â Rhan 21A o Ddeddf Cwmnïau 2006(**11**) fel y mae'n cael effaith pan ddaw'r Rheoliadau hyn i rym.

(**6**) O.S.C. 2026/15.
(**7**) 2006 p. 46.
(**8**) Diwygiwyd adran 64 gan baragraff 2 o Atodlen 10 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (p. 14), Atodlen 4 i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Ardrethu 1997 (p. 29), adran 66 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p. 26) a pharagraff 1(13) o'r Atodlen i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024. Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.
(**9**) Diwygiwyd adran 65 gan baragraff 34 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p. 42) ac adran 2(3)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Ardrethu 1997 (p. 29).
(**10**) Mewnosodwyd adran 41ZA gan adran 2(3) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024.
(**11**) Mewnosodwyd Rhan 21A gan baragraff 1 o Atodlen 3 i Ddeddf Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth 2015 (p. 26) ac fe'i diwygiwyd wedyn gan O.S. 2016/136, 2017/693, 2019/348 a 2020/645. Mae diwygiadau eraill i Ran 21A naill ai nad ydynt yn berthnasol neu nad ydynt mewn grym eto.

RHAN 2

Trefniadau osgoi artiffisial

Mathau o drefniadau

3.—(1) Mae'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn yn pennu mathau o drefniadau sy'n artiffisial at ddibenion adran 63H(1)(a) o'r Ddeddf.

(2) Ond nid yw trefniant o unrhyw fath a bennir yn yr Atodlen yn artiffisial os gwneir penderfyniad gan awdurdod bilio i'r perwyl hwnnw gan roi sylw i'r holl amgylchiadau.

(3) Caiff yr amgylchiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2) gynnwys—

(a) a yw'r meddiannydd, neu a oedd y meddiannydd, yn gweithredu busnes nad yw, neu nad oedd, ei brif ddiben yn ymwneud â lleihau atebolrwydd ardrethi annomestig;

(b) cyfran yr hereditament sy'n cael ei meddiannu, neu a oedd yn cael ei meddiannu, i gynnal y busnes a weithredir, neu a weithredwyd, gan y meddiannydd;

(c) y cyfnod amser y meddiannir neu y meddiannwyd yr hereditament amdano;

(d) a yw nodweddion yr hereditament yn gydnaws â phrif ddiben y busnes sy'n cael ei gynnal yno.

Cosbau

4.—(1) Rhaid i awdurdod bilio osod cosb ar berson y mae hysbysiad adran 63K wedi ei roi iddo pan—

(a) na fo'r hysbysiad adran 63K wedi ei dynnu'n ôl,

(b) bo'r amod neu'r amodau ym mharagraff (2) sy'n berthnasol wedi eu bodloni, ac

(c) bo'r person wedi methu â thalu swm sy'n ddyledus mewn hysbysiad galw am dalu a gyflwynwyd gan yr awdurdod bilio yn unol â rheoliad 4(1) o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestrau Lleol) 1989(**12**) o ganlyniad i'r hysbysiad adran 63K.

(2) Mae'r amodau fel a ganlyn—

(a) mae'r terfyn amser ar gyfer gofyn am adolygiad o dan adran 63K(4) o'r Ddeddf wedi dod i ben ac, os yw'r hysbysiad adran 63K wedi ei gadarnhau yn dilyn adolygiad, mae'r terfyn amser ar gyfer apelio yn erbyn yr hysbysiad o dan adran 63L(2) o'r Ddeddf hefyd wedi dod i ben(**13**);

(b) os yw'r hysbysiad adran 63K yn ddarostyngedig i apêl o dan adran 63L(2) o'r Ddeddf, mae wedi ei gadarnhau gan dribiwnlys prisio a sefydlwyd o dan baragraff 1 o Atodlen 11 i'r Ddeddf ac mae'r terfyn amser ar gyfer apelio'r hysbysiad i'r Uwch Dribiwnlys wedi dod i ben(**14**);

(**12**) O.S. 1989/1058, a ddiwygiwyd gan O.S. 1991/141, 1993/616, 2023/1154 (Cy. 199) a 2024/37 (Cy. 12); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**13**) Gweler adran 63L(2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024 a rheoliad 32(1B) o O.S. 2023/350 (Cy. 51) (a fewnosodir gan y Rheoliadau hyn), ynghylch y terfyn amser ar gyfer gwneud apelau o'r fath.

(**14**) Gweler rheoliad 56(4) a (5) o O.S. 2023/350 (Cy. 51) ynghylch y terfyn amser ar gyfer gwneud apelau o'r fath.

(c) os yw'r hysbysiad adran 63K yn ddarostyngedig i apêl o dan reoliad 56(1)(aa) o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestrau ac Apelau) (Cymru) 2023(**15**), mae wedi ei gadarnhau gan yr Uwch Dribiwnlys.

(3) Y gosb sy'n daladwy yw—

(a) £500, a

(b) 3% o werth ardrethol yr hereditament o dan sylw a ddangosir ar y rhestr leol ar ddyddiad yr hysbysiad adran 63K.

(4) Pan fo awdurdod bilio yn gosod cosb o dan y rheoliad hwn, rhaid iddo roi hysbysiad ysgrifenedig i'r person yn nodi—

(a) swm y gosb,

(b) y rhesymau dros osod y gosb,

(c) sut y caniateir talu,

(d) y cyfnod y mae rhaid talu o'i fewn, na chaiff fod yn llai nag 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau â diwrnod yr hysbysiad, ac

(e) canlyniadau peidio â thalu gan gynnwys adennill unrhyw gosb sy'n weddill yn unol â pharagraff (5).

(5) Caiff yr awdurdod bilio adennill unrhyw gosb sy'n weddill a osodir o dan y rheoliad hwn fel dyled sifil sy'n ddyledus i'r awdurdod.

Cyflwyno hysbysiadau

5.—(1) Rhoddir hysbysiad adran 63K neu hysbysiad o dan reoliad 4(4) o'r Rheoliadau hyn yn ddilys i berson os—

(a) yw wedi ei ddanfon â llaw i'r person hwnnw;

(b) yw wedi ei ddanfon at y person hwnnw yn ei briod gyfeiriad;

(c) yw wedi ei anfon i briod gyfeiriad y person hwnnw drwy'r post;

(d) yw wedi ei anfon at y person hwnnw drwy gyfathrebiad electronig.

(2) At ddibenion paragraff (1), priod gyfeiriad person yw—

(a) yn achos corff corfforedig, cyfeiriad swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa'r corff;

(b) yn achos partneriaeth, cyfeiriad prif swyddfa'r bartneriaeth;

(c) mewn unrhyw achos arall, cyfeiriad hysbys diwethaf y person.

(3) Mae'r hysbysiad i'w drin fel pe bai wedi ei ddanfon â llaw o dan baragraff (1)(a)—

(a) yn achos corff corfforedig, os yw'n cael ei ddanfon â llaw i ysgrifennydd neu glerc y corff;

(b) yn achos partneriaeth, os yw'n cael ei ddanfon â llaw i bartner neu berson a chanddo reolaeth dros fusnes y bartneriaeth neu sy'n rheoli busnes y bartneriaeth.

(4) Yn y rheoliad hwn, mae i "cyfathrebiad electronig" yr ystyr a roddir i "electronic communication" yn adran 15(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau Electronig 2000(**16**).

(5) Gweler adran 233 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**17**) ar gyfer darpariaeth ychwanegol am y dulliau y caiff awdurdodau bilio gyflwyno dogfennau drwyddynt.

(**15**) O.S. 2023/350 (Cy. 51); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2025/1323 (Cy. 217) ac O.S.C. 2026/15.
(**16**) 2000 p. 7. Diwygiwyd adran 15(1) gan baragraff 158 o Atodlen 17 i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (p. 21).
(**17**) 1972 p. 70. Mae diwygiadau nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.

RHAN 3

Diwygiadau canlyniadol i is-ddeddfwriaeth

Diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestrau Lleol) 1989

6.—(1) Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestrau Lleol) 1989 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3(1) (dehongli a chymhwyso Rhan 2) yn lle'r diffiniad o "the amount payable" rhodder—

""the amount payable"—

(a) for a chargeable financial year or part of a chargeable financial year in relation to a ratepayer, a billing authority and a hereditament in England means—

(i) the amount the ratepayer is liable to pay to the authority as regards the hereditament in respect of the year or part under—

(aa) section 43 or 45(**18**) of the Act, whether calculated by reference to any provision of or made under Schedule 4ZA, 4ZB or 7A(**19**) to the Act or by reference to an amount or rules determined or prescribed under section 47(1)(a), 57A(3)(a) or 58(3)(a)(**20**) of the Act, and

(bb) section 11 of the BRS Act, whether calculated by reference to section 13 of the BRS Act(**21**) (chargeable amount) or determined in accordance with rules set by the levying authority under section 15 of the BRS Act (BRS relief), or

(ii) where an amount falls to be credited by the billing authority against the ratepayer's liability in respect of the year or part, the amount (if any) by which the amount referred to in paragraph (i) above exceeds the amount falling to be so credited;

(b) for a chargeable financial year or part of a chargeable financial year in relation to a ratepayer, a billing authority and a hereditament in Wales means—

(**18**) Diwygiwyd adran 43 gan baragraff 60 o Atodlen 13 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (p. 14) ac adran 1(1) o Ddeddf Ardrethu Annomestig 2023 (p. 53). Diwygiwyd adran 45 gan baragraff 23 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, paragraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Ardrethu (Eiddo Gwag) 2007 (p. 9), adran 2 o Ddeddf Ardrethu Annomestig 2023, a pharagraff 1(4) o'r Atodlen i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024.

(**19**) Mewnosodwyd Atodlenni 4ZA a 4ZB yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 gan adrannau 1(3) a 2(4) o Ddeddf Ardrethu Annomestig 2023 yn y drefn honno. Mewnosodwyd Atodlen 7A gan baragraff 40 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

(**20**) Diwygiwyd adran 47(1)(a) gan baragraff 65(1) o Atodlen 13 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ac adran 69(2) o Ddeddf Lleoliaeth 2011 (p. 20). Mewnosodwyd adran 57A gan adran 65(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Amnewidiwyd adrannau 57A(3)(a) a (b) a 58(3)(a) a (b) gan baragraffau 4(b) a 5(b) o'r Atodlen i Ddeddf Ardrethu Annomestig 2023 yn y drefn honno, ond nid yw'r diffiniad o "the amount payable" yn Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestrau Lleol) 1989 fel y mae'n gymwys o ran Lloegr wedi ei ddiwygio yn unol â hynny.

(**21**) Mae "BRS" wedi ei ddiffinio yn O.S. 1989/1058 fel Deddf Taliadau Atodol Ardrethi Busnes 2009 (p. 7). Diwygiwyd adran 11 gan baragraff 13(2) o'r Atodlen i Ddeddf Ardrethu Annomestig 2023 ("Deddf 2023"). Diwygiwyd adran 13 gan adran 2(2)(a) o Ddeddf Ardrethi Annomestig (Toiledau Cyhoeddus) 2021 (p. 13) a pharagraff 13(4) o'r Atodlen i Ddeddf 2023.

(i) the amount the ratepayer is liable to pay to the authority as regards the hereditament in respect of the year or part under section 43 or 45 of the Act, whether calculated—

(aa) by reference to any provision of or made under Schedule 4ZA, 4ZB or 7A to the Act;

(bb) by reference to an amount determined or prescribed under section 47(1)(a) or 58(3)(**22**) of the Act;

(cc) as a result of applying sections 63F to 63L of the Act (so far as relevant) and regulations under section 63H(1)(a) of the Act, or

(ii) where an amount falls to be credited by the billing authority against the ratepayer's liability in respect of the year or part, the amount (if any) by which the amount referred to in paragraph (i) above exceeds the amount falling to be so credited;".

(3) Yn rheoliad 5(1) (cyflwyno hysbysiadau galw am dalu)—

(a) yn is-baragraff (a), ar ôl "sub-paragraph (b)" mewnosoder "or (c)";

(b) ar ddiwedd is-baragraff (b), yn lle "." rhodder ", or";

(c) ar ôl is-baragraff (b) mewnosoder—

"(c) if a billing authority in Wales has given notice under section 63K(1) of the Act to a person who is to be treated as liable as regards the hereditament concerned under section 43 or 45 of the Act, the first day after—

(i) the time limit for requesting a review under section 63K(4) has expired, or

(ii) if a notice under section 63K(1) of the Act has been confirmed following a review, the time limit for appealing the notice under section 63L has expired."

Diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestrau ac Apelau) (Cymru) 2023

7.—(1) Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestrau ac Apelau) (Cymru) 2023 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli: cyffredinol)—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) yn y diffiniad o "apêl", ar ôl is-baragraff (b) mewnosoder—

"(ba) adran 63L o'r Ddeddf (apelau i dribiwnlys prisio);";

(ii) yn y lle priodol mewnosoder—

"ystyr "hysbysiad adran 63K" ("*section 63K notice*") yw hysbysiad o dan adran 63K(1) o'r Ddeddf a gadarnheir yn unol ag adran 63K(5) o'r Ddeddf;";

(b) ym mharagraff (3), ar ôl is-baragraff (b) mewnosoder—

"(ba) pan fo apêl yn cael ei gwneud o dan adran 63L o'r Ddeddf, yr awdurdod perthnasol;".

(**22**) Amnewidiwyd adran 58(3) gan baragraff 5(b) o'r Atodlen i Ddeddf Ardrethu Annomestig 2023.

(3) Yn rheoliad 32 (apelau yn erbyn hysbysiadau cwblhau neu yn erbyn gosod cosbau Atodlen 9)—

(a) yn y pennawd, ar ôl "Apelau yn erbyn" mewnosoder "hysbysiadau adran 63K,";

(b) ar ôl paragraff (1A) mewnosoder—

"(1B) Rhaid i berson sy'n dymuno apelio yn erbyn hysbysiad adran 63K gyflwyno hysbysiad apêl i TPC fel ei fod yn dod i law o fewn y cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r awdurdod perthnasol yn hysbysu'r person am ei gasgliadau yn unol ag adran 63K(6) o'r Ddeddf.";

(c) ym mharagraff (2)—

(i) yn is-baragraff (a), ar ôl "hysbysiad bod y gosb wedi ei gosod" mewnosoder "neu'r hysbysiad adran 63K";

(ii) yn is-baragraff (ba), ar ôl "Atodlen 9 i'r Ddeddf" mewnosoder "neu hysbysiad adran 63K";

(d) ym mharagraff (3), yn lle "neu (1A)" rhodder ", (1A) neu (1B)";

(e) ym mharagraff (4), yn lle "ac (1A)" rhodder ", (1A) ac (1B)".

(4) Yn rheoliad 35 (trefniadau ar gyfer apelau)—

(a) ym mharagraff (1), ar ôl is-baragraff (b) mewnosoder—

"(ba) o dan adran 63L o'r Ddeddf,";

(b) yn lle paragraff (3) rhodder—

"(3) Mae paragraffau (3A) a (3B) yn gymwys pan fo'r apelau a ganlyn yn ymwneud â'r un eiddo—

(a) apêl o dan reoliad 24 ac apêl o dan reoliad 10A o Reoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestri ac Apelau) 1993(**23**), neu

(b) apêl o dan adran 63L o'r Ddeddf ac apêl o dan reoliad 24 a/neu apêl o dan reoliad 10A o Reoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestri ac Apelau) 1993.

(3A) Rhaid i Lywydd Tribiwnlys Prisio Cymru sicrhau yr ymdrinnir â'r apelau ym mharagraff (3)(a) neu (b) yn y drefn y mae'n ymddangos i'r Llywydd a fydd yn sicrhau buddiannau cyfiawnder orau.

(3B) Rhaid i'r canlynol gael eu cysylltu yn barti i'r apelau—

(a) y swyddog rhestru pan fo apêl yn cael ei gwneud o dan reoliad 24 o'r Rheoliadau hyn, a

(b) yr SP pan fo apêl yn cael ei gwneud o dan reoliad 10A o Reoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestri ac Apelau) 1993.";

(c) ym mharagraff (4), yn lle "(3)" rhodder "(3B)".

(5) Yn rheoliad 56(1) (apelau), ar ôl is-baragraff (a) mewnosoder—

"(aa) ar apêl o dan adran 63L o'r Ddeddf;".

(**23**) O.S. 1993/290, a ddiwygiwyd gan O.S. 2025/1323 (Cy. 217). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.

Mark Drakeford
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, un o Weinidogion CymruDyddiad
11 Chwefror 2026

YR ATODLEN

Rheoliad 3(1)

Mathau o drefniadau osgoi artiffisial

Math 1 – Nid yw'r feddiannaeth ar sail fasnachol

1. Mae trefniant yn drefniant artiffisial at ddibenion adran 63H(1)(a) o'r Ddeddf pan fo'n gwneud person ("P") y meddiannydd ar yr hereditament ac nid yw'r hereditament wedi ei feddiannu ar sail fasnachol am fod un neu ragor o'r canlynol yn gymwys—

(a) nid yw'n ofynnol i P wneud taliad yn gydnabyddiaeth am feddiannu'r hereditament;

(b) mae'r taliad y mae rhaid i P ei wneud yn gydnabyddiaeth am feddiannu'r hereditament—

(i) yn sylweddol is na'r lefel y gellid yn rhesymol fod wedi ei chael ar y farchnad agored ar y diwrnod yr ymrwymwyd i'r trefniant, neu

(ii) yn cael ei wrthbwyso neu ei ganslo'n gyfan gwbl neu'n rhannol gan drafodion eraill;

(c) mae un neu ragor o'r partïon i'r trefniant (gan gynnwys person sy'n darparu gwasanaethau sy'n ymwneud ag ardrethu annomestig) wedi nodi (pa un ai yn benodol yn y trefniant ei hun neu'r ddogfennaeth sy'n ymwneud ag ef, neu fel arall) liniaru atebolrwydd ardrethi annomestig fel un o ddibenion y trefniant, neu fel cymhelliant drosto;

(d) nid oes gan P asedau a fyddai'n ei alluogi i weithredu mewn perthynas â'r hereditament yn y modd a honnir.

Math 2 – Mae'r talwr ardrethi wedi ei ddirwyn i ben yn wirfoddol

2.—(1) Mae trefniant rhwng person ("L") a roddodd y les, y denantiaeth neu unrhyw ffurf arall ar gytundeb am feddiannaeth a pherson arall ("P") yn drefniant artiffisial at ddibenion adran 63H(1)(a) o'r Ddeddf pan fo'n gwneud P yn dalwr ardrethi yr hereditament a bod naill ai is-baragraff (2) neu (3) neu'r ddau ohonynt yn gymwys.

(2) Cyn ymrwymo i'r trefniant â P, ymrwymodd L i drefniant â pherson arall ("X") pan ddaeth X y talwr ardrethi ar gyfer hereditament (naill ai'r hereditament y cyfeirir ato yn is-baragraff (1) neu hereditament arall), ac—

(a) cafodd X, pan oedd yn barti i'r trefniant hwnnw, ei ddirwyn i ben yn wirfoddol o dan Benodau 2 i 5 o Ran 4 o Ddeddf Ansolfedd 1986(**24**), a

(b) ar y diwrnod y mae L yn ymrwymo i'r trefniant â P, mae gan P gysylltiad cymhwysol ag X.

(**24**) 1986 p. 45. Diwygiwyd Penodau 2 i 5 o Ran 4 gan baragraffau 16 i 30 o Atodlen 9 i Ddeddf Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth 2015, paragraff 6 o Atodlen 5 i Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 (p. 15) ac adran 77(1) o Ddeddf Trosedd Economaidd a Thryloywder Corfforaethol 2023 (p. 56), paragraff 9 o Atodlen 3 i Ddeddf Ansolfedd Corfforaethol a Llywodraethiant 2020 (p. 12) ac O.S. 2001/1090, 2003/2096, 2007/2194, 2009/1941, 2010/18 a 2019/146. Addaswyd Rhan 4 hefyd gan adran 21 o Ddeddf Anghymhwyso Cyfarwyddwyr Cwmnïau 1986 (p. 46). Mae diwygiadau ac addasiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.

(3) Mae gan P gysylltiad cymhwysol ag L neu â pherson sy'n darparu gwasanaethau i L sy'n ymwneud ag ardrethu annomestig, ar y diwrnod yr ymrwymir i'r trefniant, a bod naill ai paragraff (a) neu (b) neu'r ddau ohonynt yn gymwys—

(a) cyn ymrwymo i'r trefniant â P, ymrwymodd L i drefniant â pherson arall ("Y") pan ddaeth Y y talwr ardrethi ar gyfer hereditament (naill ai'r hereditament y cyfeirir ato yn is-baragraff (1) neu hereditament arall), ac—

(i) ar y diwrnod yr ymrwymwyd i'r trefniant hwnnw, yr oedd gan Y gysylltiad cymhwysol ag L neu â pherson sy'n darparu gwasanaethau i L sy'n ymwneud ag ardrethu annomestig, a

(ii) cafodd Y, pan oedd yn barti i'r trefniant hwnnw, ei ddirwyn i ben yn wirfoddol o dan Benodau 2 i 5 o Ran 4 o Ddeddf Ansolfedd 1986;

(b) o fewn 3 blynedd i'r diwrnod yr ymrwymwyd i'r trefniant rhwng L a P, yr oedd P wedi ei ddirwyn i ben yn wirfoddol, neu y mae P wrthi'n cael ei ddirwyn i ben yn wirfoddol, o dan Benodau 2 i 5 o Ran 4 o Ddeddf Ansolfedd 1986.

(4) Mae person i'w drin fel pe bai ganddo gysylltiad cymhwysol â pherson arall—

(a) pan fo'r ddau berson yn gwmnïau, neu pan oedd un ohonynt neu'r ddau ohonynt yn gwmnïau, ac

(i) bod y naill yn is-gwmni i'r llall, neu yr oedd y naill yn is-gwmni i'r llall,

(ii) bod y ddau yn is-gwmnïau i'r un cwmni, neu yr oedd un ohonynt neu'r ddau ohonynt yn is-gwmnïau i'r un cwmni,

(iii) bod yr un person naill ai'n gyfarwyddwr i'r ddau gwmni, neu'n unigolyn â rheolaeth sylweddol dros y ddau gwmni, neu yr oedd yr un person naill ai'n gyfarwyddwr i'r ddau gwmni, neu'n unigolyn â rheolaeth sylweddol dros y ddau gwmni, neu

(iv) bod yr un person yn gyfarwyddwr i un cwmni ac yn unigolyn â rheolaeth sylweddol dros y cwmni arall, neu yr oedd yr un person yn gyfarwyddwr i un cwmni ac yn unigolyn â rheolaeth sylweddol dros y cwmni arall, neu

(b) pan mai un person yn unig sy'n gwmni, neu a oedd yn gwmni, a bod gan y person arall neu yr oedd gan y person arall ("yr ail berson") fuddiant yn y cwmni hwnnw a fyddai, pe bai'r ail berson yn gwmni, yn golygu ei fod yn gwmni daliannol y llall.

(5) Yn y paragraff hwn, mae i "cwmni daliannol" ac "is-gwmni" yr ystyron a roddir i "holding company" a "subsidiary" yn y drefn honno yn adran 1159 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Math 3 – Mae'r perchennog neu'r meddiannydd yn dangos nodweddion neu ymddygiadau penodol

3.—(1) Mae trefniant yn drefniant artiffisial at ddibenion adran 63H(1)(a) o'r Ddeddf pan fo un neu ragor o'r canlynol yn gymwys mewn perthynas â'r hereditament—

(a) methodd y perchennog, y meddiannydd neu'r person a roddodd y les, y denantiaeth neu unrhyw ffurf arall ar gytundeb am feddiannaeth â darparu enw'r talwr ardrethi mewn ymateb i gais am yr wybodaeth honno o dan baragraff 5(1B)

o Atodlen 9 i'r Ddeddf(**25**) o fewn y cyfnod a bennir ym mharagraff 5A(1)(**26**) o'r Atodlen honno;

(b) mae'r trefniant yn gwneud person ("P") y talwr ardrethi ac nid oes gan P unrhyw gysylltiad â'r gweithrediad na'r gweithgarwch economaidd sy'n digwydd ar yr hereditament neu mewn perthynas ag ef;

(c) mae'r trefniant, rhwng person ("L") a roddodd y les, y denantiaeth neu unrhyw ffurf arall ar gytundeb am feddiannaeth a pherson arall ("P"), yn gwneud P y talwr ardrethi ac, ar y diwrnod yr ymrwymwyd i'r trefniant, yr oedd P yn gyflogai, yn gontractwr, yn bartner neu'n berthynas agos i L;

(d) mae'r trefniant yn gwneud person ("P"), neu gwmni, ffyrm neu ymddiriedolaeth y mae P yn gyfarwyddwr iddo neu iddi, yn bartner iddo neu iddi, yn ymddiriedolwr elusen iddo neu iddi neu'n unigolyn â rheolaeth sylweddol drosto neu drosti, y talwr ardrethi ac ar y diwrnod yr ymrwymwyd i'r trefniant, mae un neu ragor o'r canlynol yn gymwys—

(i) yn y 2 flynedd flaenorol, yr oedd P wedi ei euogfarnu o dan adran 767(1) o Ddeddf Cwmnïau 2006 o gynnal busnes neu arfer unrhyw bwerau benthyca cwmni cyhoeddus nad oedd ganddo dystysgrif fasnachu;

(ii) yn y 2 flynedd flaenorol, yr oedd P yn ddarostyngedig i ddatganiad a ddyroddwyd gan lys am fasnachu twyllodrus neu fasnachu ar gam o dan adran 213(2), 214(1), 246ZA(2) neu 246ZB(1) o Ddeddf Ansolfedd 1986(**27**), neu erthygl 177 neu 178(1) o Orchymyn Ansolfedd (Gogledd Iwerddon) 1989(**28**);

(iii) yr oedd P wedi ei anghymhwyso rhag bod yn gyfarwyddwr cwmni, naill ai yn rhinwedd gorchymyn anghymhwyso neu ymgymeriad anghymwyso o dan adran 1 neu 1A o Ddeddf Anghymhwyso Cyfarwyddwyr Cwmnïau 1986(**29**), neu erthygl 3 neu 4 o Orchymyn Anghymhwyso Cyfarwyddwyr Cwmnïau (Gogledd Iwerddon) 2002(**30**), heb ganiatâd y llys i fod yn gyfarwyddwr mewn cysylltiad â'r talwr ardrethi;

(iv) yr oedd P wedi ei anghymhwyso rhag bod yn ymddiriedolwr elusen neu'n ymddiriedolwr i'r elusen honno o dan adran 178 neu 181A o Ddeddf Elusennau 2011(**31**), adran 69 o Ddeddf Elusennau a Buddsoddi gan

(**25**) Mewnosodwyd paragraff 5(1B) gan adran 151(2)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1).

(**26**) Mewnosodwyd paragraff 5A gan adran 72(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Diwygiwyd paragraff 5A(1) gan adran 151(3)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Gwneir diwygiadau pellach i baragraff 5A(1) yn rhinwedd paragraff 13(2)(e)(i) o'r Atodlen i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024 ar ddyddiad sydd i'w bennu.

(**27**) Addaswyd adran 213(2) gan adrannau 21(5) a 25 o Ddeddf Anghymhwyso Cyfarwyddwyr Cwmnïau 1986. Mewnosodwyd adrannau 246ZA a 246ZB gan adran 117(2) o Ddeddf Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth 2015.

(**28**) O.S. 1989/2405 (G.I. 19), a ddiwygiwyd gan O.S. 2009/1941. Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.

(**29**) 1986 p. 46. Diwygiwyd adran 1 gan adran 5(1) a (2) o Ddeddf Ansolfedd 2000 (p. 39) a pharagraff 2 o Atodlen 4 iddi, a pharagraff 2(2) o Atodlen 13 i Ddeddf Cyllid 2024 (p. 3). Mewnosodwyd adran 1A gan adran 6(2) o Ddeddf Ansolfedd 2000 ac fe'i diwygiwyd gan baragraff 2(3) o Atodlen 13 i Ddeddf Cyllid 2024.

(**30**) O.S. 2002/3150 (G.I. 4). Diwygiwyd erthyglau 3 a 4 gan baragraff 9(3) a (4) o Atodlen 8 i Ddeddf Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth 2015. Diwygiwyd erthygl 3 hefyd gan O.S. 2005/1454 (G.I. 9).

(**31**) 2011 p. 25. Diwygiwyd adran 178 gan adrannau 4(5) a 9(3) i (6) o Ddeddf Elusennau (Diogelu a Buddsoddi Cymdeithasol) 2016 (p. 4) a pharagraff 9 o Atodlen 3 i Ddeddf Sancsiynau a Gwrth-Gwyngalchu Arian 2018 (p. 13), ac O.S. 2012/2404, 2016/481, 2019/466, 2019/573 a 2019/577. Mewnosodwyd adran 181A gan adran 10(2) o Ddeddf Elusennau (Diogelu a Buddsoddi Cymdeithasol) 2016 ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2016/997.

Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005(**32**) neu adran 86 o Ddeddf Elusennau (Gogledd Iwerddon) 2008(**33**);

(v) yn y 2 flynedd flaenorol, yr oedd P wedi ei euogfarnu o drosedd o dan adran 216 o Ddeddf Ansolfedd 1986(**34**) neu erthygl 180 o Orchymyn Ansolfedd (Gogledd Iwerddon) 1989(**35**) (cyfyngiad ar ailddefnyddio enwau cwmnïau);

(vi) yr oedd P yn ddarostyngedig i orchymyn cyfyngiadau methdaliad, gorchymyn cyfyngiadau methdaliad interim, neu ymgymeriad cyfyngiadau methdaliad, o dan Atodlen 4A i Ddeddf Ansolfedd 1986(**36**), Rhan 13 o Ddeddf Methdaliad (Yr Alban) 2016(**37**), neu Atodlen 2A i Orchymyn Ansolfedd (Gogledd Iwerddon) 1989(**38**).

(2) Yn is-baragraff (1)(c), ystyr "perthynas agos" yw rhiant, rhiant mabwysiadol, llys-riant, rhiant yng nghyfraith, mab, mab yng nghyfraith, merch, merch yng nghyfraith, llysfab, llysferch, mab mabwysiadol, merch fabwysiadol, brawd neu chwaer (pa un ai o waed cyfan neu hanner gwaed), llysfrawd, llyschwaer, neu bartner unrhyw berson o'r fath.

(3) Yn is-baragraffau (1)(c) a (2), ystyr "partner" yw—

(a) gŵr neu wraig neu bartner sifil y person hwnnw, neu

(b) os yw'r person yn byw gyda pherson arall fel pe baent yn gwpl priod neu'n bartneriaid sifil, y person arall hwnnw.

(4) Yn is-baragraff (1)(d)—

ystyr "ffyrm" ("*firm*") yw unrhyw endid arall, pa un a yw'n berson cyfreithiol ai peidio, nad yw'n unigolyn ac mae'n cynnwys corff corfforedig, corfforaeth undyn a phartneriaeth neu gymdeithas anghorfforedig arall;

ystyr "ymddiriedolwr elusen" yw person sy'n dod o fewn y diffiniad o "charity trustees" yn adran 177 o Ddeddf Elusennau 2011.

Math 4 – Mae i'r feddiannaeth nodweddion penodol

4.—(1) Mae trefniant yn drefniant artiffisial at ddibenion adran 63H(1)(a) o'r Ddeddf pan fo un o'r canlynol neu'r ddau ohonynt yn gymwys i feddiannaeth yr hereditament—

(a) mae'r feddiannaeth yn fuddiol yn bennaf oherwydd ei bod yn cyfrannu at gynnal busnes lliniaru ardrethi annomestig;

(**32**) 2005 dsa 10. Diwygiwyd adran 69 gan baragraff 211 o Atodlen 8 i Ddeddf Elusennau 2006 (p. 50), paragraff 107 o Atodlen 7 i Ddeddf Elusennau 2011 ac adrannau 4(2) a 5(2) a (3) o Ddeddf Elusennau (Rheoleiddio a Gweinyddu) (yr Alban) 2023 (dsa 5).
(**33**) 2008 p. 12. Diwygiwyd adran 86 gan baragraff 138 o Atodlen 7 i Ddeddf Elusennau 2011 ac adran 3(3) o Ddeddf Elusennau (Gogledd Iwerddon) 2013 (p. 3).
(**34**) Addaswyd adran 216 gan adrannau 21(5) a 25 o Ddeddf Anghymhwyso Cyfarwyddwyr Cwmnïau 1986. Mae diwygiadau ac addasiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.
(**35**) O.S. 1989/2405 (G.I. 19), a ddiwygiwyd gan O.S. 2009/1941.
(**36**) Mewnosodwyd Atodlen 4A gan adran 257 o Ddeddf Menter 2002 (p. 40) ac Atodlen 20 iddi, ac fe'i diwygiwyd gan baragraff 63 o Atodlen 19 i Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013 (p. 24) ac adran 135(2)(b) o Ddeddf Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth 2015.
(**37**) 2016 dsa 21.
(**38**) O.S. 1989/2405 (G.I. 10); yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S. 2015/1455 (G.I. 19).

(b) mae budd y feddiannaeth yn deillio'n gyfan gwbl neu'n bennaf o drosglwyddydd WiFi neu Bluetooth (ac unrhyw gyfarpar cysylltiedig) a ddefnyddir ar gyfer marchnata electronig lleol neu hysbysebu electronig lleol.

(2) Ym mharagraff 4(1)(a), ystyr "busnes lliniaru ardrethi annomestig" yw busnes neu berson sy'n rhan o'r gwaith o weithredu (gan gynnwys cynghori, cydgysylltu neu reoli) gynllun neu gynlluniau at y brif ddiben o leihau atebolrwydd ardrethi annomestig.

© Hawlfraint y Goron 2026

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 43

RATING AND VALUATION, WALES

The Non-Domestic Rating (Artificial Avoidance Arrangements) (Local Lists) (Wales) Regulations 2026

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

Sections 63F to 63M of the Local Government Finance Act 1988 ("the Act"), which were inserted by section 13 of the Local Government Finance (Wales) Act 2024, make provision about counteracting advantages arising from artificial arrangements for the avoidance of non-domestic rates liability in relation to hereditaments in Wales.

These Regulations describe the types of avoidance arrangements, in relation to hereditaments on the local non-domestic rating lists, which are artificial for the purposes of sections 63F to 63I and 63K to 63M of the Act (unless a billing authority determines otherwise). They also make provision in relation to penalties and consequential amendments to secondary legislation.

The types of arrangements which are artificial are described in regulation 3 of, and the Schedule to, these Regulations. These are: arrangements where a hereditament is not occupied on a commercial basis, where the ratepayer has been wound up voluntarily, where the owner or occupier exhibits particular characteristics and behaviours, or where the occupation of the hereditament has certain characteristics. However, regulation 3(2) enables a billing authority to determine that an arrangement of a type specified in the Schedule is not artificial after having regard to all the circumstances. Such circumstances may include (but are not limited to) those listed in regulation 3(3).

Regulation 4 makes provision in relation to the penalty imposed where a person has failed to pay an amount due to a billing authority in consequence of having made an artificial arrangement and the information which must be contained in notices imposing such penalties ("penalty notices").

Regulation 5 makes provision as to how a billing authority may effect service of notices given under section 63K(1) of the Act ("section 63K notices") and penalty notices.

